

3 Ebrill 2020

Neges i holl ddysgwyr TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Haf 2020

Annwyl dysgwr

Rwy'n sylweddoli bod y cyhoeddiad bod arholiadau'r haf hwn wedi cael eu canslo wedi gwneud i chi fel dysgwyr deimlo'n ansicr, a'ch bod chi'n aros yn eiddgar am newyddion. Er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi, hoffwn rannu beth rydyn ni'n ei wneud i roi graddau i chi y gallwch eu defnyddio i fynd ymlaen i'r chweched dosbarth, coleg, prifysgol, hyfforddiant neu waith.

Ein nod yw eich trin chi mor deg â phosibl yr haf hwn.

Sut caiff graddau eu cyfrifo?

Mae rhan fwyaf o TGAU, UG a Safon Uwch mae dysgwyr yng Nghymru wedi cofrestru amdanynt yn cael eu dyfarnu gan CBAC. Dim ond gan CBAC y caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei dyfarnu. Os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TGAU, UG neu Safon Uwch gyda bwrdd arholi gwahanol, bydd yr un egwyddorion yn berthnasol.

Bydd gofyn i'ch ysgolion, colegau a chanolfannau arholi anfon dau ddarn o wybodaeth am bob un o'ch cymwysterau at y byrddau arholi, yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n ei wybod am eich gwaith a'ch perfformiad:

- y radd maen nhw'n credu roeddech chi fwyaf tebygol o'i chael petái addysgu, dysgu ac arholiadau wedi digwydd yn ôl y cynllun
- trefn dysgwyr, yn ôl perfformiad, o fewn y graddau hynny

Bydd eich canolfan yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth fel eich gwaith dosbarth a'ch gwaith cartref; eich canlyniadau mewn aseiniadau ac unrhyw ffug arholiadau; unrhyw asesiadau diarholiad i chi eu cwblhau; a'ch cynnydd cyffredinol yn ystod eich cwrs.

Bydd y wybodaeth hon yn galluogi CBAC a byrddau arholi eraill i gasglu a chymharu graddau yd a lled canolfannau. Gyda'n gilydd, rydyn ni eisiau sicrhau bod canlyniadau'n deg

a, hyd eithaf ein gallu, nad yw dysgwyr o dan fantais neu anfantais oherwydd bod eu canolfannau'n fwy hael neu'n fwy llym na rhai eraill wrth wneud y penderfyniadau hynny. Mae hynny'n golygu y gallai eich gradd derfynol fod yn wahanol i'r un mae eich canolfan yn ei hanfon at CBAC neu fyrddau arholi eraill.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Dim byd. Bydd eich athrawon yn adolygu'r holl waith rydych chi wedi ei wneud hyd yn hyn, fydd unrhyw waith newydd ddim yn dylanwadu ar ganlyniadau'r haf hwn. Gall athrawon barhau i osod gwaith i sicrhau bod yr holl addysgu a dysgu wedi'i gwblhau, a helpu i'ch paratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r data (graddau a threfn restrol) a gaiff ei ddarparu'n gyfrinachol ac ni ellir ei rannu gyda chi fel dysgwyr, eich rheini neu ofalwyr. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â gofyn i'ch athrawon, nac unrhyw un arall yn eich canolfan, i ddweud wrthoch chi pa raddau byddan nhw'n eu hanfon at y byrddau arholi na ble maen nhw wedi eich gosod chi yn nhrefn y dysgwyr. Pwrpas hyn yw helpu sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gan ysgolion a cholegau mor deg â phosibl.

Pryd caf i fy nghanlyniadau?

Rydyn ni'n gweithio'n galed i sicrhau eich bod chi'n cael eich canlyniadau cyn gynted â phosibl – a dim hwyrach na'r dyddiadau a gyhoeddwyd, sef 13 Awst (UG a Safon Uwch) a 20 Awst (TGAU).

A allaf sefyll fy arholiadau ryw dro arall?

Cynhelir arholiadau TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith bob mis Tachwedd. Gallwch chi ymgeisio am yr arholiadau hyn. Bydd arholiadau eraill ar gael, fel arfer, yn ystod haf 2021.

Cael y wybodaeth ddiweddaraf

Rydyn ni wedi cyhoeddi rhagor o ganllawiau manwl [yma](#) a allai fod yn ddefnyddiol i chi a'ch rhieni neu ofalwyr. Hefyd, mae diweddiadau rheolaidd ar ein gwefan (www.qualificationswales.org) a'n cyfryngau cymdeithasol (@cymwysterau_cymru ar trydar a @qualswalescymcymru ar facebook) efallai yr hoffech eu dilyn.

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad.

Philip Blaker



Prif Weithredwr

Cymwysterau Cymru